# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 6

PLANT SY'N DERBYN GOFAL A PHLANT SY'N CAEL EU LLETYA

*Cyswllt ac ymweliadau*

### 97 Dyletswydd awdurdod lleol i sicrhau ymweliadau a chyswllt â phlant sy'n derbyn gofal a phlant eraill

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i—
- (a) plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol;
- (b) plentyn a fu'n derbyn gofal gan awdurdod lleol ond nid yw bellach yn derbyn gofal gan yr awdurdod o ganlyniad i amgylchiadau a bennwyd mewn rheoliadau;
- (c) plentyn sy'n dod o fewn categori a bennir mewn rheoliadau.

(2) Rhaid i reoliadau sy'n pennu categori at ddiben is-adran (1)(c) hefyd bennu'r awdurdod lleol y mae'n rhaid iddo gyflawni'r dyletswyddau a osodir gan neu o dan yr adran hon mewn perthynas â phlentyn sy'n dod o fewn y categori penodedig.

(3) Rhaid i awdurdod lleol—
- (a) sicrhau bod person sy'n cynrychioli'r awdurdod ("cynrychiolydd") yn ymweld â phlentyn y mae'r adran hon yn gymwys iddo;
- (b) trefnu bod cyngor a chymorth arall priodol ar gael i blentyn y mae'r adran hon yn gymwys iddo.

(4) O ran y dyletswyddau a osodwyd gan is-adran (3)—
- (a) maent i'w cyflawni yn unol ag unrhyw reoliadau a wneir at ddibenion yr adran hon;

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/04/2016.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 97 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(b) maent yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad a osodir gan neu o dan ddeddfiad sy'n gymwys i'r man lle y mae'r plentyn y mae'r adran hon yn gymwys iddo yn cael ei letya.

(5) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon at ddibenion is-adran (4)(a) wneud darpariaeth am—

(a) amlder yr ymweliadau;

(b) yr amgylchiadau pan fo'n rhaid i gynrychiolydd ymweld â'r plentyn y mae'r adran hon yn gymwys iddo;

(c) swyddogaethau cynrychiolydd.

(6) Wrth ddewis cynrychiolydd, rhaid i awdurdod lleol fodloni ei hun bod gan y person a ddewiswyd y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gyflawni swyddogaethau cynrychiolydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 97 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**

**I2** A. 97 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag ergl. 4, Atod. 1, Atod. 2)

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/04/2016.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 97 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.